# Cynllun Dysgu Gorfodol Ymateb Covid 19 ar gyfer Darparwyr Gofal

Mawrth 2020



# Cynllun Dysgu Gorfodol ar gyfer Ymyrraeth Covid-19

Dyma gynllun dysgu gorfodol ar gyfer staff newydd yn y sector gofal cymdeithasol, sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i'r ymateb i gynllun gweithredu COVID-19. Mae'r modiwlau dysgu canlynol wedi cael eu rhoi ynghyd fel isafswm yr ymyrraeth oherwydd y sefyllfa bresennol a gan fod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi cael ei wahardd.  Fodd bynnag, sylwch bydd disgwyl i holl weithwyr newydd gwblhau hyfforddiant pellach unwaith i'r cyfyngiadau godi.

Bydd angen i weithwyr weithio drwy'r modiwlau a restrir isod ac unwaith iddynt eu cwblhau, dylent lofnodi'r ddogfen ynghyd â'r Rheolwr Atebol er mwyn cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r modiwlau ac wedi deall y cynnwys.

Bydd y pecyn hyfforddi llawn yn cymryd oddeutu 7 awr i'w gwblhau a bydd angen mynediad at liniadur, llechen neu gyfrifiadur bwrdd gwaith.

**Mae'r Modiwlau Dysgu'n Cynnwys:**

- Gofal – Yr Hanfodion
- Cymorth Cyntaf Sylfaenol
- Hylendid bwyd
- Rheoli Heintiau
- Delio â Meddyginiaeth yn Ddiogel
- Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl
- Symud a Thrin Pobl

**Er mwyn cofrestru ar gyfer y pecyn dysgu hwn, anfonwch neges e-bost at sc.training@conwy.gov.uk a rhowch fanylion eich enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad gwaith.**

Sylwch, cewch eich eithrio o fodiwl dysgu os oes gennych dystiolaeth o ddysgeidiaeth flaenorol gyfatebol neu'n uwch na'r safon a gynhwysir yn y pecyn hwn.

## Gofal – Yr Hanfodion

Mae bod yn weithiwr gofal y rheng flaen yn waith boddhaol ond yr un pryd gall deimlo fel tasg frawychus. Felly mae'n bwysig deall rhannau hanfodol o'ch rôl a rhai o'r effeithiau cadarnhaol y byddwch yn eu cael ar y rhai rydych yn eu cefnogi.

Y nodweddion allweddol rydych eu hangen i gyflawni'r rôl yw Gofal, Trugaredd a Gwerthoedd. Rhaid i chi wylio'r clipiau ffilm canlynol er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth o bwysigrwydd y rôl y byddwch yn ei chyflawni a'r gwerthoedd hanfodol er mwyn eich cynorthwyo i gyflawni'r rôl bwysig a boddhaol hon.

**Trugaredd ac Urddas**

Compassion, dignity and respect in health care - YouTube - 4 munud 15 eiliad

What do compassion, dignity and respect mean to you? - YouTube - 2 funud 7 eiliad

Dignity in Care: Personal Hygiene - YouTube - 14 munud 56 eiliad

**Cyfathrebu, Annibyniaeth ac Atal Niwed Pwysau**

Communication Matters - YouTube – 5 munud 2 eiliad

Personalisation: Promoting independence in care homes - YouTube – 9 munud 2 eiliad

Pressure Injury Prevention - YouTube – 3 munud 45 eiliad

New video aims to reduce risk of pressure ulcers - YouTube 1 munud 54 eiliad

## Cymorth Cyntaf Sylfaenol

Mae'n ofynnol i chi lawrlwytho canllawiau'r cwrs ac yn y modiwl hwn byddwch yn dysgu Cymorth Cyntaf Sylfaenol drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein 'Heart Start' gan Sefydliad Prydeinig y Galon. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau drwy archebu DVD a'r adnoddau neu lawrlwytho'r deunyddiau ar-lein ar Adnoddau Heartstart

- Gwyliwch y fideos a restrir yma Heartstart training videos for communities - BHF
- Dilynwch ganllawiau'r cwrs i ymarfer y sgiliau sy'n cael eu dangos yn y fideos.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: Heartstart - CPR training courses communities - British Heart Foundation

## Hylendid bwyd

Mae’r Modiwl Hylendid Bwyd yn adnodd dysgu ar-lein sydd wedi’i gynhyrchu gan AC Education.

Canlyniadau Dysgu

- Deall pwysigrwydd hylendid bwyd
- Deall peryglon halogiad a sut i’w rheoli
- Deall y cysyniad o faetheg a bwyta’n iach
- Deall y prosesau ar gyfer cwyno a chanmol

Mae’n cymryd oddeutu 1 awr i’w gwblhau

Unwaith i chi gwblhau’r cwrs, cadwch ac argraffwch neu anfonwch neges e-bost gyda’r dystysgrif i’ch Rheolwr Atebol.

## Rheoli Heintiau

Mae’r Modiwl Rheoli Heintiau yn adnodd dysgu ar-lein sydd wedi’i gynhyrchu gan AC Education.

Canlyniadau Dysgu

- Deall heintiau, dulliau trosglwyddo a’r goblygiadau i’r lleoliad gofal iechyd
- Deall egwyddorion cyffredinol rheoli heintiau
- Deall gweithdrefnau hylendid a gofal iechyd personol
- Gwybodaeth am y deddfwriaethau sy’n effeithio ar reoli heintiau

Mae’n cymryd oddeutu 1 awr i’w gwblhau

Unwaith i chi gwblhau’r cwrs, cadwch ac argraffwch neu anfonwch neges e-bost gyda’r dystysgrif i’ch Rheolwr Atebol.

## Delio â Meddyginiaeth yn Ddiogel

Mae’r Modiwl Delio â Meddyginiaeth yn Ddiogel yn adnodd dysgu ar-lein sydd wedi’i gynhyrchu gan AC Education.

Canlyniadau Dysgu

- Deall meddyginiaeth, gan gynnwys gwahanol fathau a dosbarthiadau.
- Deall gweithdrefnau ar gyfer cyflenwi, cadw a gwaredu meddyginiaeth
- Deall y broses o roi meddyginiaeth

Mae’n cymryd oddeutu 1 awr i’w gwblhau

Unwaith i chi gwblhau'r cwrs, cadwch ac argraffwch neu anfonwch neges e-bost gyda'r dystysgrif i'ch Rheolwr Atebol.

## Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl

Byd y ddogfen PDF Gwybodaeth Diogelu Gorfodol yn cael ei anfon ar e-bost i chi ar eich cais. Mae'n ofynnol i Reolwr y lleoliad fynd trwy'r PDF i sicrhau eich bod yn deall eich rhwymedigaethau a llwybrau a pholisïau adrodd y gweithle, mewn perthynas â:

- Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl
- Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Caethwasiaeth Fodern

## Symud a Thrin Pobl

Mae'r Modiwl Symud a Thrin Pobl yn adnodd ar-lein wedi'i gynhyrchu gan High Speed Training.

Mae'r cwrs yn cynnwys:

| **Modiwl** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **Cyflwyno Symud a Thrin a'r Gyfraith** | Pam bod hyfforddiant yn bwysig, gweithgareddau symud a thrin, anafiadau posibl, deddfwriaeth a chyfrifoldebau cyflogwr a gweithiwr. |
| **Asesu Risg** | Asesiadau cyffredinol, asesiadau unigolion, canfod peryglon, penderfynu pwy all gael eu hanafu, personoli asesiad risg, rheoli'r peryglon a chofnodi ac adolygu'r asesiad. |
| **Defnyddio Offer yn Ddiogel** | PUWER a LOLER, gallu staff, mathau o offer, diogelwch codi, diogelwch sling, diogelwch EPB, diogelwch cadair olwyn a diogelwch cymhorthydd cerdded. |
| **Arferion Gorau ar gyfer Symud a Thrin** | Paratoi i symud rhywun, TILEO, technegau trin da, technegau trin gwael a chynorthwyo pobl heb offer. |

## Canllawiau ar COVID 19

Mae canllawiau gwasanaeth penodol gan Iechyd Cyhoeddus o ran y rheolyddion ar gyfer

COVID-19 wrth weithio gydag unigolion sydd wedi'u hamau o fod â'r haint. Cymerwch amser i ddarllen drwy'r canllawiau drwy glicio ar y ddolen uchod.

Bydd y canllawiau hefyd yn cael eu hanfon i chi ar e-bost gyda'r pecyn hwn o ran gwisgo a thynnu Cyfarpar Diogelu Personol.

## Cwblhau Cynllun Dysgu Gorfodol

Enw'r Gweithiwr: ____________________________________________

| MODIWL | DYDDIAD CWBLHAU'R MODIWL |
|---|---|
| Gofal – Yr Hanfodion | |
| Cymorth Cyntaf Sylfaenol | |
| Hylendid bwyd | |
| Rheoli Heintiau | |
| Delio â Meddyginiaeth yn Ddiogel | |
| Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl | |
| Symud a Thrin Pobl | |
| Canllawiau COVID-19 | |

Rwy'n tystio fy mod i wedi cwblhau'r modiwlau dysgu uchod ac yn deall egwyddorion a'r arferion a amlinellwyd.

Llofnod y Gweithiwr: ___________________________ Dyddiad: ___________

Llofnod y Rheolwr: ____________________________ Dyddiad: ______________